

## CHRISTINA.

**Enw:** Christina  
**Priod:** Owain ap Gruffydd ap Cynan  
**Plentyn:** Rhodri ab Owain Gwynedd  
**Plentyn:** Dafydd ab Owain Gwynedd  
**Rhiant:** Gronw ab Owain ab Edwin  
**Rhyw:** Benyw  
**Maes gweithgaredd:** Teuluoedd Brenhinol a Bonheddig; Gwleidyddiaeth a Mudiadau Gwleidyddol  
**Awdur:** John Edward Lloyd

Ail wraig **Owain Gwynedd**, merch Gronw (bu farw 1124) ab **Owain ab Edwin**, ac felly'n gyfnither i'w gwr. Ni chydabyddid y briodas gan yr Eglwys a cheisiodd yr archesgob Becket a'r pab Alexander III ganddynt ymwahanu, beth amser cyn marw **Owain**. Eithr parhaodd **Owain**, a garai ei wraig yn fawr, yn ystyfnig; o'r herwydd bu farw o dan ysgymundod. Wedi ei mynd yn weddw rhoes Christina gynhorthwy sylweddol i'w meibion **Dafydd** a **Rhodri** yn eu hymosodiad ar eu hanner-brawd **Hywel** yn 1170; ceir bardd anhysbys, gan chwarae ar ei henw, yn sôn mewn modd chwerw am ei hymddygiad anghristnogol. Cristin ydyw ffurf Gymreig ei henw; ffansi ' **Iolo Morganwg** ' sy'n gyfrifol am y ffurf ' Crisiant ' a geir yn ' Brut Gwent ' (*The Myvyrian Archaeology of Wales* , ii, 572).

### Awdur

Syr **John Edward Lloyd**, (1861 - 1947)

### Ffynonellau

J. E. Lloyd, *A History of Wales from the Earliest Times to the Edwardian Conquest*(London 1911), 522, 549

### Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: Cristin ferch Goronwy ab Owain

### Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q17479415

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.



Arddull APA



Lloyd, J. E., (1953). CHRISTINA.. Y *Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 18 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-CHRI-WRA-1100>

Clippwr

LGC  
NLW

LLYFRGEL  
THE NATION



Ysgrifeddiadau  
Llywodraeth Cymru  
Copied by  
Welsh Government